**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELER**
**2025**

Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 19ain 2025 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cyng R Evans, diolchodd i bawb am y gefnogaeth tra yn y gadair.

**PRESENNOL:** Cyng.- Jamie Ayres, John Crossley, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Marc Rees, Gethin Richards, Eleri Samson, Dilwyn Smith ac Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones
Hefyd yn bresennol :- Cyng Sir Cyng. Hazel Evans a'r Cyfieithydd

**1. 05/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Angharad Edwards, Antoni Schiavone,

**2. 05/25 CADARNHAU COFNODION 2024:**
Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod misol Mehefin 26:06:2024 Cynigydd: Cyng. J Ayres
Eilydd: Cyng. A Schiavone

**3. 05/25 ETHOL CADEIRYDD(swydd cyfnod 2 flynedd) am 2025/27:-**
Cyng. Ken Howell fel Cadeirydd yn dechrau ar ei dymor cyfnod o 2 flynedd - Cynigwyd gan Cyng Eleri Samson a cytunwyd yn unfrydol iddo gymryd y gadair.

**4. 05/25 ETHOL IS-GADEIRYDD (swydd cyfnod 2 flynedd) am 2025/27:**-
Cyng. Gethin Richards fel is Gadeirydd am y cyfnod 2 flynedd – Cynigwyd gan Adrian Thomas ac eiliwyd gan Aled Eynon

**5. 05/25 LWFANS Y CADEIRYDD:**
Am y flwyddyn 2025 /26 fe gytunwyd fel y flwyddyn cynt i'r Cadeirydd roi anfoneb am unrhyw gostau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. 05/25 CYFLOG Y CLERC:** Ychwanegwyd £50 y mis i gyflog y clerc, gadawodd y clerc a'r Cynghorydd H Evans yr ystafell cyn y drafodaeth

**7. 05/25 DERBYN MANTOLEN 2024 – 2025:**
Derbyniwyd y fantolen oedd wedi ei archwilio gan Mrs Ann James yr Archwilydd Mewnol wedi ei arwyddo a gafwyd yn gywir.

**9. 05/25 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2023-24:**
Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2025/26.

**10. 05/25 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**
Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Ken Howell
Llywodraethwyr Bryn Saron – Cyng. Antoni Schiavone
Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith
Parc Saron – Cyng Gethin Richards
Parc Pentrecwrt – Cyng. Jamie Ayres
Pwyllgor Llifogydd Llandysul – Cyng. Adrian Thomas
Llywodraethwyr Ysgol Bro Teifi – Cyng Adrian Thomas

**11. 05/25 MATERION CYFANSODDIADOL:**
i. Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwympo ar Ŵyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun yr wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Ŵyl y Banc yr un fydd y drefn.- cytunwyd i hyn

**Dyddiadau Cyfarfodydd 2025/26 :-**
**2025:-** Mehefin30ain, Gorffennaf28ain, Medi 29ain, Hydref27ain, Tachwedd 24ain,
**2026:-** Ionawr 26ain , Chwefror 23ain, Mawrth30ain, Ebrill 27ain, Mai 18ed

ii. Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Agri Advisor, Cyfreithwyr, Stryd y Bont, CN Emlyn - cytunwyd

Daeth y rhan yma o'r cyfarfod i ben am 7.55yh

CADEIRYDD________________________________________ DYDDIAD__________________________